Strategaeth Cynyddu Cynhwysiant

CODI YMWYBYDDIAETH O YMGYNGHORIADAU CYN YMGEISIO HORIZON AR YNYS MÔN AC ANNOG POBL I GYMRYD RHAN

CYFLWYNIAD

Diben y ddogfen hon ydy amlinellu sut mae Pŵer Niwclear Horizon Cyfyngedig (Horizon) yn bwriadu cyrraedd ac ymgysylltu â'r cymunedau amrywiol ar Ynys Môn cyn, ac yn ystod, ei ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer gorsaf bŵer niwclear newydd ar Ynys Môn. Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio'n benodol ar y rheini nad ydyn nhw'n draddodiadol yn ymateb i ymgynghoriadau ffurfiol, neu maen nhw'n ei chael hi'n anodd gwneud hynny (weithiau mae'r bobl hyn yn cael eu galw yn grwpiau 'anodd eu cyrraedd').

Mae'r strategaeth hon yn eistedd ochr yn ochr â'r Datganiad o Ymgynghori Cymunedol, sy'n nodi sut bydd Horizon yn ymgynghori â'r gymuned leol ynghylch ei gynigion ar gyfer gorsaf bŵer niwclear newydd yn Wylfa (Gorsaf Bŵer).

CANLLAWIAU AR GRWPIAU ANODD EU CYRRAEDD

Mae'r Orsaf Bŵer yn cael ei dosbarthu fel prosiect seilwaith sydd â phwysigrwydd cenedlaethol o dan Ddeddf Cynllunio 2008 ac felly rhaid cael gorchymyn cydsyniad datblygu ar ei chyfer, a'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd sy'n rhoi hwnnw.

O dan Adran 47 o Ddeddf Cynllunio 2008, mae gan Horizon ddyletswydd statudol i ymgynghori â'r gymuned leol cyn cyflwyno cais am orchymyn cydsyniad datblygu.

Mae'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol wedi cyhoeddi Deddf Cynllunio 2008 – Canllawiau ar y Broses Cyn Ymgeisio (Ebrill 2013)[1] sy'n nodi bod angen dull gweithredu cynhwysol er mwyn sicrhau bod grwpiau gwahanol yn cael y cyfle i gymryd rhan ac nad ydyn nhw dan anfantais yn y broses (paragraff 37). Cydnabyddir y dylai'r awdurdod lleol ddarparu arbenigedd am gyfansoddiad ei ardal, gan gynnwys a allai pobl yn yr ardal fod ag anghenion neu ofynion penodol, a ydy'r awdurdod wedi nodi unrhyw grwpiau fel rhai anodd eu cyrraedd a pha dechnegau allai fod yn briodol i oresgyn rhwystrau ar gyfer cyfathrebu (paragraff 27).

[1] Edrychwch ar www.gov.uk/government/publications/guidance-on-the-pre-application-process-for-major-infrastructure-projects

DULL GWEITHREDU

Mae Horizon wedi ymrwymo i ymgynghoriad **ystyrlon, cynhwysol** a **chlir**.

Mae hyn yn golygu gweithio gyda'r *holl* gymunedau lleol, gan gynnwys unigolion neu grwpiau ymylol, a sicrhau bod pobl (pan fo'n bosibl) yn cael cyfle cyfartal i gael gafael ar wybodaeth am y cynigion a'u bod yn gallu ymateb i'r ymgynghoriad drwy ddefnyddio sianel briodol.

Yr amcan cyffredinol ydy ymgysylltu â grwpiau targed yn barhaus ond gyda ffocws penodol cyn ac yn ystod cyfnodau ymgynghori cyn ymgeisio er mwyn codi ymwybyddiaeth ac annog pobl i gymryd rhan. Mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar gymunedau ym mharth ymgynghori A oherwydd eu bod yn agos at y safle a'r datblygiad arfaethedig, er mae'n anochel y bydd rhywfaint o weithgarwch yn digwydd ar draws parthau B ac C.

Fel rhan o'r rhaglen ehangach i nodi rhanddeiliaid allweddol, mae grwpiau penodol wedi cael eu nodi a'u blaenoriaethu wrth ddatblygu'r Strategaeth Cynyddu Cynhwysiant. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys y rheini sydd fwyaf tebygol o wynebu rhwystrau i gymryd rhan yn y broses ymgynghori a bod dan anfantais oherwydd ffactorau economaidd-gymdeithasol a/neu faterion sy'n ymwneud â mynediad. Ystyrir y gallai'r grwpiau hyn o bosibl gael eu hanwybyddu a'u heithrio'n anfwriadol oherwydd nad oes strategaeth benodol i'w hannog i gymryd rhan.

Dyma'r prif grwpiau targed ar gyfer y Strategaeth Cynyddu Cynhwysiant:

- pobl ifanc
- pobl hŷn
- pobl sy'n economaidd anweithgar
- cymunedau o amddifadedd cymdeithasol
- pobl anabl a phobl ag anawsterau dysgu
- grwpiau lleiafrifoedd ethnig
- grwpiau sy'n cynrychioli crefyddau a chredoau eraill
- y gymuned lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol
- perchnogion cartrefi gwyliau.

Cafodd y grwpiau hyn eu dewis drwy gydweithrediad agos â Chyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor), fel sy'n cael ei argymell yn y canllawiau gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol. Cynhaliwyd cyfarfodydd cychwynnol gydag Adran Datblygu Economaidd y Cyngor a'r Grŵp Polisi Corfforaethol i ofyn am gyngor ar y mathau o grwpiau y dylid eu targedu'n benodol a'r ffyrdd gorau o'u cyrraedd. Ar sail y rhestr a roddwyd gan Grŵp Polisi Corfforaethol y Cyngor o fudiadau perthnasol sy'n gweithio gyda grwpiau penodol, crëwyd rhestr gynhwysfawr o fudiadau ac unigolion 'porthor' – hy mudiadau ac unigolion sy'n gweithio gyda a/neu yn cynrychioli'r grwpiau targed. Mae rhai o'r mudiadau hyn yn gweithio gyda mwy nag un grŵp targed.

Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda nifer o fudiadau porthor er mwyn gofyn am gyngor ynghylch sut gallai Horizon ddefnyddio'r wybodaeth, y rhwydweithiau a'r sianeli cyfathrebu sydd ar gael er mwyn codi ymwybyddiaeth o'i ymgynghoriad yng nghymunedau Ynys Môn. Y cyfarfodydd hyn oedd y cam

cyntaf i sefydlu cysylltiadau a pherthnasau a fydd yn para gyda grwpiau sy'n cefnogi cymunedau ac unigolion ymylol, dan anfantais neu wedi ymddieithrio.

Cyfarfu Horizon â'r unigolion/sefydliadau cynrychioladol canlynol a gofyn am gyngor ganddyn nhw:

- **Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Ynys Môn** – sy'n cynrychioli chwech o glybiau ffermwyr ifanc, ac oddeutu 150 o aelodau 10-26 oed ar Ynys Môn.
- **Cyngor ar Bopeth Ynys Môn** – y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth lleol sy'n darparu cyngor arbenigol ar faterion sy'n ymwneud â lles, budd-daliadau, cyllid, tai a chyflogaeth
- **Môn CF** (Cymunedau yn Gyntaf o'r blaen) – elusen gofrestredig a sefydlwyd yn 2012 i uno'r pum hen bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf ar Ynys Môn yn un mudiad mwy er mwyn cefnogi a gwella amodau byw a rhagolygon y wardiau sydd â'r amddifadedd mwyaf ar Ynys Môn
- **Swyddog Strategaeth Pobl Hŷn Cyngor Sir Ynys Môn** – sy'n gyfrifol am sicrhau cydraddoldeb, hybu ymgysylltiad pobl 50+ a diogelu eu hawliau a'u lles
- **Uned Polisi a Strategaeth Cyngor Sir Ynys Môn** – sy'n gyfrifol am yr holl ymgynghoriadau ac ymgysylltu cymunedol sy'n ymwneud â'r cyngor, gyda mwy o bwyslais ar grwpiau 'anodd eu cyrraedd'
- **Cydlynydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol** – yn gweithio yng Nghyngor Sir Ynys Môn, yn gyfrifol am gefnogi cydlyniant cymunedol ar draws Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn
- **Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ynys Môn** – yn gyfrifol am les cymdeithasol pobl Ynys Môn, gan gynnwys pobl ifanc a phobl hŷn, a phobl sydd ag anableddau corfforol neu feddyliol
- **Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Sir Ynys Môn** – gwasanaeth yr awdurdod lleol i gefnogi ac ymgysylltu â phobl ifanc yn enwedig mewn ardaloedd sy'n wynebu amddifadedd cymdeithasol a/neu wahaniaethu
- **Canolfan Byd Gwaith/Prosiect Anweithgarwch Môn Menai** - yn gweithio gyda phobl ddi-waith ac economaidd anweithgar, gan ddod â'r holl asiantaethau cefnogi perthnasol at ei gilydd
- **Llais Ni** - prosiect i rymuso pobl ifanc a rhoi cyfle iddyn nhw roi eu safbwyntiau ar ystod o bynciau sy'n berthnasol iddyn nhw (mae pum fforwm pobl ifanc ar Ynys Môn)
- **Llwyddo'n Lleol** - prosiect sydd wedi'i anelu at greu diwylliant o fentergarwch ymysg pobl ifanc ar Ynys Môn, a hybu cyfleoedd gyrfa a busnes lleol
- **Medrwn Môn** - asiantaeth annibynnol sy'n darparu cefnogaeth a chyngor i ystod eang o grwpiau gwirfoddol a chymunedol ar Ynys Môn
- **Fforwm Anabledd Taran** – grŵp menter gymdeithasol sy'n gweithio i roi cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth i oedolion anabl
- **Swyddog Amrywiaeth Heddlu Gogledd Cymru** – sy'n gyfrifol am redeg Grŵp Ymgynghori LGBT Gogledd Cymru
- **Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWREN)** - elusen sy'n gweithio gyda darparwyr gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau i sicrhau cyfle cyfartal i bawb gan gynnwys y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig fel sy'n cael eu diffinio yn Neddf Cydraddoldeb 2010

- **Stoenwall Cymru** – mudiad sy'n gweithio ar draws Cymru sy'n gweithio mewn partneriaeth â chyrff statudol a mudiadau eraill i sicrhau cydraddoldeb cyfreithiol a chyfiawnder cymdeithasol i bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yng Nghymru
- **Llais Cymunedol** – prosiect sy'n cael ei ariannu gan y Loteri ac sy'n cael ei weinyddu gan Medrwn Môn sydd wedi'i ddylunio i gael pobl i gymryd mwy o ran yn y gwaith o ddylunio a darparu gwasanaethau ar gyfer eu cymunedau

Y PRIF SIALENSIAU

Roedd y cyfarfodydd a gynhaliwyd gyda'r mudiadau 'porthor' wedi galluogi Horizon i ddeall yn well y grwpiau mae'n ceisio eu targedu drwy'r Strategaeth Cynyddu Cynhwysiant. Roedden nhw hefyd wedi tynnu sylw at nifer o ystyriaethau a sialensiau allweddol y bydd Horizon yn eu hystyried wrth gynllunio ei raglen ymgynghori:

- Mae cael **pobl ifanc** i ddangos diddordeb yn anodd iawn, a rhaid i unrhyw ymdrech i ymgynghori â nhw fod yn rhagweithiol, yn berthnasol ac yn hwyl, gan gynnwys llai o ddarllen ac ysgrifennu nag i oedolion. Mae gweithgareddau ar-lein (gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol) yn prysur ennill eu lle fel y ffordd fwyaf effeithiol o gyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth gyda phobl ifanc.
- Mae nifer o **bobl hŷn** sy'n actif ac yn gallu teithio yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cael eu cynnal o dan Strategaeth Pobl Hŷn y Cyngor a'r cynllun Agewell. Serch hynny mae nifer o bobl hŷn eraill sydd â phroblemau iechyd ac sy'n gaeth i'w cartrefi. Yn gyffredinol mae gan y rheini sy'n cael gofal yn y cartref neu sydd mewn cartrefi nyrsio lefel uchel o angen ac felly mae hi'n anoddach iddyn nhw gymryd rhan mewn digwyddiadau ymgynghori.
- Mae tua 36% o bobl ar Ynys Môn yn **economaidd anweithgar**, ac mae lefel uchel o anllythrennedd ymysg oedolion. Ar ben hynny, mae nifer o bobl ar Ynys Môn heb gysylltiad â'r rhyngrwyd. Felly gall dulliau ymgynghori sy'n cynnwys darllen ac ysgrifennu, neu sy'n gofyn am fynediad i'r rhyngrwyd, olygu does dim modd i rai rhannau o'r gymuned gymryd rhan. Dylid darparu cefnogaeth a chanllawiau er mwyn eu helpu i gymryd rhan.
- Mae 2% o ardaloedd Ynys Môn yn perthyn i'r 10% o ardaloedd â'r **amddifadedd mwyaf yn gymdeithasol** yng Nghymru, fel y nodir gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2011[2]. Mae'r cymunedau hyn yn aml yn cynnal eu hunain ac wedi ymddieithrio.
- Mae'r term **'anabl'** yn cynnwys ystod eang o anghenion a materion mynediad; y grŵp hwn yw'r lleiaf cydryw a bydd yn galw am gyfuniad o ddulliau a fformatau gwybodaeth er mwyn sicrhau bod pobl sydd ag anableddau meddwl a chorfforol gwahanol yn cael eu cynnwys yn llawn.
- Mae **perchnogion cartrefi gwyliau** yn grŵp pwysig gan eu bod yn treulio llawer o amser ar Ynys Môn ac mae'n debyg y bydd cynigion Horizon yn effeithio arnyn nhw mewn rhyw ffordd, ond mae'n anodd dod o hyd iddyn nhw ac felly mae'n arbennig o anodd eu cyrraedd.

[2] Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2011, Adroddiad Cryno. Ar gael yn http://wales.gov.uk/docs/statistics/2011/110831wimd11summaryen.pdf

- Er bod 98% o bobl Ynys Môn o gefnir ethnig gwyn (mae'r cyfan bron hefyd yn cael eu hadnabod fel pobl Brydeinig), yn ôl ffigurau Cyfrifiad 2011[3], mae'n debyg y bydd nifer y bobl o **grwpiau ethnig lleiafrifol** yn tyfu oherwydd patrymau mudo. Mae'r rheini a ddaw o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn aml yn gudd mewn cymdeithas ac mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i adnabod anghenion diwylliannol ac ieithyddol.

SYMUD YMLAEN

Wrth gynllunio ei raglen ymgynghori cymunedol, bydd Horizon yn ystyried yr angen i fod mor gynhwysol â phosibl a'r ffordd orau o gynyddu'r cyrhaeddiad drwy ddefnyddio'r sianeli cyfathrebu presennol. Bydd yr egwyddor o gynyddu cynhwysiant yn cael ei dilyn drwy gydol y gwaith o gynllunio a darparu gweithgareddau ymgysylltu a'r ymgynghoriad ei hun.

Bydd nifer o'r grwpiau sydd wedi cael eu nodi uchod yn cael eu targedu drwy weithgareddau ymgysylltu a chyfathrebu craidd y prosiect, ee Grŵp Cyswllt y Prosiect, y cylchlythyr a'r cymorthfeydd misol. Ar ben hynny, bydd Horizon yn cynllunio rhaglen fanwl o weithgareddau sydd â'r nod penodol o hybu ymwybyddiaeth o'i ymgynghoriad ymysg grwpiau a allai fod yn ymylol ac wedi'u heithrio. Bydd hyn yn cael ei wneud cyn ac yn ystod cam cyntaf yr ymgynghoriad, ac yn gyffredinol bydd yn golygu:

- Cynyddu'r defnydd o ddulliau a rhwydweithiau cyfathrebu presennol sydd eisoes yn ymgysylltu â phobl, defnyddio sianeli cyfathrebu ar-lein ac all-lein sy'n targedu'r grwpiau a nodwyd yn benodol (ee gwefannau, cylchlythyrau sydd ar gyfer cymunedau a sectorau penodol).
- Sicrhau bod yr holl ddogfennau annhechnegol yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) ac ystyried ceisiadau am ddeunyddiau ymgynghori mewn ieithoedd a fformatau gwahanol, a'u darparu pan fydd hynny'n briodol.
- Darparu cyflwyniadau wedi'u teilwra i fforymau a mudiadau cynrychioladol er mwyn codi ymwybyddiaeth o gynigion Horizon, cynyddu dealltwriaeth o'i broses ymgynghori ac annog pobl i gymryd rhan ynddi.
- Bod yn bresennol mewn digwyddiadau sy'n targedu'r grwpiau a nodwyd yn benodol.
- Ystyried y ffordd orau o sefydlu deialog gyda grwpiau targed priodol drwy gyfryngau ar-lein. Sicrhau bod cyfran resymol o'r arddangosfeydd ymgynghori a'r cymorthfeydd galw-draw yn cael eu cynnal mewn lleoliadau mae'r grwpiau targed yn ymweld â nhw.
- Pan fo'n briodol, defnyddio llai o iaith dechnegol a jargon mewn deunyddiau ymgynghori ysgrifenedig i sicrhau bod y neges sylfaenol yn cyrraedd pob cynulleidfa dim ots beth ydy eu hoed a'u lefelau llythrennedd.
- Darparu sesiynau briffio a diweddariadau i asiantaethau cefnogi perthnasol ynghylch y cynigion, y broses ymgynghori a sut mae cymryd rhan er mwyn sicrhau eu bod yn hyderus ac yn gallu cynghori a rhoi gwybod i ddefnyddwyr gwasanaeth am ymgynghoriad Horizon ac effeithiau posibl y datblygiad.

[3] Ffynhonnell: http://wales.gov.uk/docs/statistics/2012/121217sb1262012en.pdf

- Targedu'r parciau gwyliau/ail gartrefi gyda gwybodaeth wedi'i theilwra er mwyn annog yr ymwelwyr tymhorol i gofrestru i gael gwybodaeth yn y dyfodol am yr ymgynghoriad yng nghyfeiriad eu cartref.
- Darparu llinell gymorth ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) wedi'i staffio i ddelio ag unrhyw ymholiadau ynghylch y prosiect a'r broses ymgynghori a rhoi canllawiau ar gyflwyno adborth.
- Sicrhau bod y deunyddiau gwybodaeth (ee cylchlythyr Horizon) a'r hysbysebion sy'n cael eu dosbarthu ynghylch yr ymgynghoriad yn cyrraedd lleoliadau ar lawr gwlad a grwpiau cymunedol.
- Sicrhau bod lleoliadau'r ymgynghoriad yn hollol hygyrch, a bod y digwyddiadau'n cael eu cynnal mewn lleoliadau lle mae grwpiau ymylol yn ymweld â nhw'n rheolaidd - gan gynnwys pobl mewn cymunedau gwledig.
- Cynnal deialog barhaus gyda'r mudiadau sy'n cynrychioli ac yn gweithio gyda'r grwpiau targed a nodwyd i fonitro ac adolygu cynwysoldeb ymdrechion ymgysylltu ac ymgynghori.

Ers y cyfarfodydd cychwynnol a restrwyd yn gynharach yn y ddogfen hon, mae Horizon wedi symud ymlaen i gynllunio'r gweithgareddau'n fanwl gyda golwg ar roi'r rhaglen ar waith rhwng mis Awst a mis Rhagfyr 2014.

Bydd y strategaeth hon yn cael ei hadolygu cyn ail gam yr ymgynghoriad i fonitro ei lwyddiant mewn perthynas â'r grwpiau targed a amlinellir uchod. Bydd y canfyddiadau o'r cam cyntaf hwn o'r ymgynghoriad yn cael eu defnyddio i gynllunio ail gam yr ymgynghoriad, ac yn bwydo i Strategaeth Cynyddu'r Cynhwysiant ddiwygiedig fel sy'n briodol.